S4/C

Cynllun Gweithredu S4C 2009 ar gyfer y Cynllun Cydraddoldeb Anabledd

Mae ein Cynllun Gweithredu yn adlewyrchu ein prif amcanion sef:

(1) Mynediad i'n gwasanaethau rhaglenni;
(2) Mynediad i wybodaeth am S4C a'n gwasanaethau;
(3) Cyfleoedd Cyfartal, yn arbennig i gyflogaeth.

Mae'n fwriad i ddarparu camau ymarferol i gyflawni ein hamcanion.

Bydd Awdurdod S4C yn gyfrifol am adolygu llwyddiant a'r effaith yn erbyn yr amcanion yn eu hadolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu hwn. Byddant yn asesu yn unol â'r Cynllun Cydraddoldeb Anabledd, ac yn benodol bydd angen tystiolaeth gan randdeiliaid bod S4C wedi cyfleu'r effaith sydd ei angen a thrwy roi ystyriaeth briodol i'r dyletswyddau cyffredinol.

GWASANAETHAU CYNNWYS

Gweithred	Person Cyfrifol	Dyddiad Gweithredu	Asesu'r Effaith	Canlyniad
Byddwn yn hyrwyddo delwedd positif o bobl ag anabledd ar y sgrin. Byddwn yn amlinellu mathau o raglenni mae S4C yn mynd i ddarlledu yn ein Datganiad Polisi Rhaglenni 2009.	Rhian Gibson	Trwy gydol y flwyddyn	Bydd Awdurdod S4C yn adolygu llwyddiant fel rhan o'r broses o gyhoeddi Adolygiad Datganiad Polisi Rhaglenni S4C. Bydd yr adolygiad yn cael ei yrru at Ofcom.	
Byddwn yn parhau gyda'n aelodaeth o'r "Broadcasting and Creative Industries Disability Network" ac yn cydweithio gyda'r cwmni "Access to Work" i feithrin dealltwriaeth o ofynion pobl anabl ynghyd ag ymarfer gorau.	Emlyn Penny Jones	Trwy gydol y flwyddyn	Bydd Awdurdod S4C yn adolygu llwyddiant fel rhan o'u hadolygiad o'r Cynllun Gweithredu.	
Bydd Sefydliad Thomson ac Uned Ymchwil Prifysgol Aberystwyth yn parhau i gynnal adolygiad annibynnol o bortread pobl ag anabledd ar y sgrin (mewn rhaglenni Cymraeg wedi'u cynhyrchu ar gyfer S4C).	Phil Williams	Yn ystod y flwyddyn	Bydd canlyniadau adolygiad 2008 yn cael eu hystyried fel rhan o'r Cynllun Gweithredu yn 2009.	
Byddwn yn cwrdd â thargedau Ofcom ar isdeitlau, sain ddisgrifio ac arwyddo yn ystod holl oriau S4C ar gyfer "gwasanaethau mynediad" fel a ganlyn: Isdeitlo (Saesneg): 75% Arwyddo: 4% Sain Ddisgrifio: 10% Rydym yn ymrwymiedig i gyrraedd targed 100% ar gyfer isdeitlo ar S4C digidol erbyn 31.12.09 (yn amodol ar hawliau).	Emlyn Penny Jones	Trwy gydol y flwyddyn	Byddwn yn adrodd i Awdurdod S4C yn chwarterol a blynyddol a chyhoeddi'r adroddiadau hynny ar wefan Awdurdod S4C. Byddwn yn adrodd i Ofcom.	

GWASANAETHAU CYNNWYS

Gweithred	Person Cyfrifol	Dyddiad Gweithredu	Asesu'r Effaith	Canlyniad
Byddwn yn anelu i ddarparu 10 awr yr wythnos o oriau gwreiddiol gydag isdeitlau Cymraeg.	Emlyn Penny Jones	Trwy gydol y flwyddyn	Byddwn yn adrodd i Awdurdod S4C yn chwarterol a blynyddol a chyhoeddi'r adroddiadau hynny ar wefan Awdurdod S4C.	
Byddwn yn sicrhau bod isdeitlau yn hygyrch ar bob llwyfan sef analog; digidol – Lloeren (Sky a Freesat); Freeview; Cebl (Virgin Media) a'r We.	Emlyn Penny Jones	Yn ystod y flwyddyn	Byddwn yn adrodd i Awdurdod S4C yn ystod y flwyddyn. Byddwn yn ymgynghori gyda phobl anabl i dderbyn adborth am ein gwasanaethau. Bydd Awdurdod S4C yn adolygu ac yn adrodd yn yr Adroddiad Blynyddol.	
Byddwn yn sicrhau bod yr holl wefannau newydd a gynhyrchir yn cydymffurfio ag argymhellion gofynion gan y WAI (Web Accessibility Initative) a WCAG (Web Content Accessibility Guidelines). Byddwn yn adolygu'r canllawiau i ystyried unrhyw safonau newydd gan gyhoeddiad fersiwn 2.0 ganllawiau'r WCAG ac unrhyw ganllawiau ymarfer da a chyhoeddiad safonau BS PAS 77/78 ymarfer gorau wrth gomisiynu gwefannau.	Garffild Lloyd Lewis	Yn ystod y flwyddyn	Bydd Awdurdod S4C yn adolygu llwyddiant fel rhan o'u hadolygiad o'r Cynllun Gweithredu.	
Byddwn yn ymgynghori gyda phobl anabl i dderbyn adborth ar ein gwasanaethau. Gall yr ymgynghoriad ddigwydd mewn ffurf seminar ac/neu ymchwil ar-lein i drafod ein gwasanaethau mynediad ac i ddarparu gwybodaeth ar ein gwasanaethau, cynllun gweithredu a gweithgaredd i'r dyfodol. Dylid gwahodd rhanddalwyr priodol i gymryd rhan.	Emlyn Penny Jones	Yn ystod y flwyddyn	Ein bwriad yw cymryd sylw o'r hyn mae'r defnyddwyr yn ei feddwl o'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl anabl a sut orau i wella'r gwasanaeth ar eu cyfer.	

CYFATHREBU

Gweithred	Person Cyfrifol	Dyddiad Gweithredu	Asesu'r Effaith	Canlyniadau
Byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Anabledd a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2009.	Kay Walters	Ionawr 2009	Byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Anabledd a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2009 ar wefan S4C.	
Bydd ein Gwifren Gwylwyr yn gweithredu gwasanaeth ffôn tecst ddwyieithog yn ystod oriau'r Wifren. Bydd defnydd o wasanaeth y ffôn tecst yn cael ei adolygu yn ystod y flwyddyn ac os yn addas byddwn yn ystyried cyflwyno dull arall fwy cyfleus o gyfathrebu.	Hannah Thomas	Trwy gydol y flwyddyn	Byddwn yn adrodd i Awdurdod S4C ar y targed fel rhan o adolygiad o'r Cynllun Gweithredu.	
Yn ystod y flwyddyn byddwn yn cymryd cyngor ar ffurfioli canllawiau mynediad ar gyfer cyhoeddiadau S4C.	Hannah Thomas	Trwy gydol y flwyddyn		
Byddwn yn ymateb a chymryd i ystyriaeth barn pobl sy'n cysylltu â'r Wifren Gwylwyr sy'n ymwneud â materion anabledd.	Garffild Lloyd Lewis	Trwy gydol y flwyddyn	Bydd Awdurdod S4C yn derbyn adroddiadau misol fydd yn rhestru'r holl alwadau a gohebiaeth a dderbynnir gan y Wifren.	
Byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth ar wasanaethau mynediad ar gael yn eang ac yn hygyrch i bobl anabl.	Garffild Lloyd Lewis	Trwy gydol y flwyddyn	Byddwn yn ymgynghori â phobl anabl i sicrhau bod ein dulliau o gyfathrebu yn hygyrch.	
Byddwn yn sicrhau bod trefniadau ac holl addasiadau rhesymol yn cael eu gweithredu er mwyn peidio â gwahaniaethu yn erbyn rheiny sydd am fynychu cyfarfodydd cyhoeddus Awdurdod S4C a digwyddiadau neu deithiau S4C.	Garffild Lloyd Lewis	Trwy gydol y flwyddyn	Byddwn yn adrodd ar y Cynllun Gweithredu hwn a'r adborth a dderbynnir yn ein Adroddiad Blynyddol.	

CYFATHREBU

Gweithred	Person Cyfrifol	Dyddiad Gweithredu	Asesu'r Effaith	Canlyniadau
Byddwn yn sicrhau bod ein holl leoliadau ar gyfer digwyddiadau yn darparu adnoddau ar gyfer rheiny sydd ag anabledd. Ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus Awdurdod S4C, byddwn yn sicrhau person i arwyddo ac "induction loop" yn ôl y galw ac yn trefnu unrhyw drefniadau rhesymol arall i sicrhau mynediad i bawb.	Garffild Lloyd Lewis	Trwy gydol y flwyddyn		
Byddwn yn ymgynghori gyda phobl anabl i dderbyn eu barn ar fynediad i'n digwyddiadau cyhoeddus.	Garffild Lloyd Lewis	Yn ystod y flwyddyn	Bydd Awdurdod S4C yn adolygu llwyddiant fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun Gweithredu.	

ADEILADAU S4C

Gweithred	Person Cyfrifol	Dyddiad Gweithredu	Asesu'r Effaith	Canlyniadau
Mae S4C yn asesu yn rheolaidd gofynion cydymffurfio â Rhan III o'r Deddf Gwahaniaethu ar Anabledd a bydd yn parhau i wneud hynny.	Arshad Rasul	Trwy gydol y flwyddyn	Bydd Awdurdod S4C yn adolygu llwyddiant fel rhan o'u hadolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu.	
Byddwn yn monitro argymhellion yr asesiad ar gyfer mynediad ac asesiad effaith ar gyfer pobl anabl yn y swyddfeydd ym Mharc T□ Glas a'r swyddfeydd newydd yng Nghaernarfon.	Arshad Rasul	Trwy gydol y flwyddyn	Byddwn yn gweithredu newidiadau i gymryd ystyriaeth ganlyniadau'r asesiad. Mae'r mynediad a'r adnoddau ar gyfer pobl anabl yn swyddfeydd S4C yng Nghaerdydd a Chaernarfon yn cyd fynd â gofynion y Ddeddf.	

HYFFORDDI A STAFFIO

Gweithred	Person Cyfrifol	Dyddiad Gweithredu	Asesu'r Effaith	Canlyniadau
Byddwn yn darparu hyfforddiant ar gyfer holl staff er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r cynllun hwn a'n Polisi Cyfleodd Cyfartal fel y maent yn berthnasol i bobl anabl, gofynion cyfreithiol S4C, a'r dyletswydd i wneud newidiadau rhesymol. Byddwn yn gweithio'n agos gyda staff anabl drwy gydol y flwyddyn er mwyn darparu hyfforddiant yn unol â'r anghenion. Byddwn yn darparu hyfforddiant priodol i staff sydd â chysylltiad gyda'r cyhoedd neu yn trefnu digwyddiadau er mwyn deall goblygiadau'r cynllun hwn.	Kay Walters	Trwy gydol y flwyddyn	Bydd adolygiad o'r Cynllun Gweithredu hwn yn cynnwys datganiad o ofynion hyfforddiant sydd wedi ei gynnal a hefyd sy'n amlinellu gofynion hyfforddi S4C ar gyfer 2009.	
Byddwn yn hyrwyddo cyfleoedd gwaith ar gyfer pobl anabl. Bydd yr holl hysbysebion yn y wasg yn cynnwys y logo "yn bositif am bobl anabl". Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod swyddi yn cael eu hysbysebu i gynulleidfa mor eang â phosib, gan gynnwys ar wefannau ar gyfer pobl anabl ayb.	Kay Walters	Trwy gydol y flwyddyn	Bydd Awdurdod S4C yn adolygu llwyddiant yn eu hadolgiad o'r Cynllun Gweithredu.	
Byddwn yn cymryd rhan yn y Cynllun Anabledd Safonol yn 2009 i'n galluogi ni i fesur ein perfformiad ar anabledd ac i fod yn fwy hyderus wrth ddelio gyda materion anabl.	Kay Walters	Trwy gydol y flwyddyn	Bydd Awdurdod S4C yn adolygu llwyddiant fel rhan o'u hadolgiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu.	
Byddwn yn parhau i ymgynghori gyda 'Access to Work' i gyfarfod anghenion staff ag anableddau ac i hyrwyddo amrywiaeth o fewn y gweithlu.	Kay Walters	Trwy gydol y flwyddyn	Bydd Awdurdod S4C yn adolygu llwyddiant yn eu hadolygiad o'r Cynllun Gweithredu.	

HYFFORDDI A STAFFIO

Gweithred	Person Cyfrifol	Dyddiad Gweithredu	Asesu'r Effaith	Canlyniadau
Bydd Uned Adnoddau Dynol S4C yn trefnu asesiad o anghenion staff sydd ag anableddau yn ôl yr angen, ac asesu unrhyw newidiadau anghenrheidiol ar eu cyfer.	Kay Walters a Phwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth Awdurdod S4C	Adroddiad blynyddol i Bwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth Awdurdod S4C	Bydd Awdurdod S4C yn adolygu llwyddiant yn eu hadolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu.	

CAFFAEL (PROCUREMENT)

Gweithred	Person Cyfrifol	Dyddiad Gweithredu	Asesu'r Effaith	Canlyniadau
Byddwn yn sicrhau bod y datganiad canlynol yn parhau i ffurfio rhan o'r Telerau Masnach safonol: "Mae S4C yn gyflogwr Cyfle Cyfartal. Nid yw S4C yn gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, crefydd neu gredo, oedran, anabledd, gogwydd rhywiol na statws priodasol wrth gyflogi staff neu mewn unrhyw rai o'i pholisïau cyflogaeth eraill. Ystyrir pobl anabl, os ydynt wedi'u cofrestru fel pobl anabl neu beidio, yn llawn ac yn deg ar gyfer pob swydd wag, a rhoddir yr un cyfleoedd iddynt â'r cyfleoedd a gynigir i aelodau eraill o staff o ran hyfforddiant, datblygiad gyrfa a sicrhau dyrchafiad swydd. Bwriad S4C yw bod pob cynhyrchydd sy'n cynhyrchu rhaglenni ar gyfer S4C yn mabwysiadu ac yn dilyn polisïau cyflogaeth tebyg."	Delyth Wynne Griffiths	Trwy gydol y flwyddyn.	Bydd Awdurdod S4C yn adolygu llwyddiant fel rhan o'u hadolgiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu.	

CAFFAEL (PROCUREMENT)

Gweithred	Person Cyfrifol	Dyddiad Gweithredu	Asesu'r Effaith	Canlyniadau
Byddwn yn sicrhau bod y datganiad canlynol yn parhau i ffurfio rhan o'r Telerau Masnach safonol: "Na fydd dim a gynhwysir yn Rhaglen S4C nac unrhyw ymarfer ar Hawliau S4C yn tarfu ar unrhyw hawliau confensiwn fel y'u diffinnir yn Neddf Hawliau Dynol 1998 ("Hawliau'r Confensiwn") unrhyw unigolyn nac yn tresmasu ar unrhyw hawlfraint, nod masnachu, hawl preifatrwydd, hawl cyhoeddusrwydd nac unrhyw hawl arall o unrhyw fath arall sy'n perthyn i unrhyw berson, ac na fydd yn anllad nac yn enllibus, yn gableddus nac yn absennus, nac yn torri darpariaethau unrhyw statudau (gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal a thriniaeth deg), rheoliadau neu orchmynion; wrth gyflawni ei oblygiadau dan y Drwydded, bydd y Cynhyrchydd, wrth ymdrin â'r cyhoedd, yn parchu egwyddorion y Cynllun Iaith Gymraeg, polisi cyfle cyfartal S4C a pholisi S4C ar gydraddoldeb hiliol fel y'u mynegwyd yn Adrannau 11.2 ac 11.3 y Telerau Masnach;"	Delyth Wynne Griffiths	Trwy gydol y flwyddyn.	Bydd Awdurdod S4C yn adolygu llwyddiant fel rhan o'u hadolgiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu ac yn cyhoeddi'r adolygiad yn Adroddiad Blynyddol S4C.	
Byddwn yn negydu er mwyn cynnwys cymal yn ein telerau cyffredinol yn gofyn i gynhyrchwyr i barchu egwyddorion cyfleoedd cyfartal i bobl anabl a thrafod gyda TAC eu Cod Ymarfer ar gyfleodd cyfartal.	Delyth Wynne Griffiths	Trwy gydol y flwyddyn.	Bydd Awdurdod S4C yn adolygu llwyddiant fel rhan o'u hadolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu.	

CYFFREDINOL

Gweithred	Person Cyfrifol	Dyddiad Gweithredu	Asesu'r Effaith	Canlyniadau
Byddwn yn sicrhau bod ein polisïau a phrosiectau yn cael eu gweithredu gan gymryd ystyriaeth gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar Anabledd ac yn benodol y dyletswyddau cyffredinol.	Bwrdd Cyfarwyddwyr	Trwy gydol y flwyddyn wrth baratoi polisïau a phrosiectau.	Byddwn yn parhau i asesu polisïau a phrosiectau gan roi ystyriaeth briodol i'r dyletswyddau cyffredinol a gweithio'n agos gyda sefydliadau cymwys.	
Bydd yr archwilwyr mewnol yn arwain adolygiad o bolisïau cyflogaeth S4C i sicrhau eu bod yn cydfynd gydag ymarfer gorau fel rhan o'u cynllun gwaith ar gyfer 2009.	Kathryn Morris	Yn ystod 2009	Byddwn yn parhau i ddangos bod polisiau cyflogaeth S4C yn dangos ymarfer da.	
Byddwn yn adolygu'r Cynllun ar Gydraddoldeb i Bobl Anabl cyhoeddwyd ar 12 Rhagfyr, 2006 yn unol â Rhan 5, Cymal 5.1	Bwrdd Cyfarwyddwyr	Yn ystod 2009		
Bydd adolygiad blynyddol Awdurdod S4C o lwyddiant y Cynllun Gweithredu yn cymryd i ystyriaeth barn pobl anabl a gallant gynnal ymchwil i'r pwrpas yma os dymunir.	Phil Williams	Yn ôl y gofyn.	Bydd Awdurdod S4C yn adolygu llwyddiant yn eu hadolygiad blynyddol o'r Cynllun Gweithredu.	